**CFA26 Urdd Gobaith Cymru**

Senedd Cymru | Welsh Parliament

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol | Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee

**Cymraeg i bawb?** | **Cymraeg for all?**

Ymateb gan: Urdd Gobaith Cymru | Evidence from: Urdd Gobaith Cymru

**1.** Beth yw'r prif rwystrau sy'n atal defnydd ehangach o'r Gymraeg mewn ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg, a beth allai helpu i newid hyn?

Rydym o'r farn bod angen mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r dosbarth.

Prif Rwystrau:

Bod yna ddiffyg buddsoddiad teg ar hyd y blynyddoedd, diffyg cynllunio cymunedol ieithyddol wrth adeiladu/sefydlu ysgolion newydd a diffyg ymwybyddiaeth swyddogion i greu a chefnogi darpariaeth sydd yn annog plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r dosbarth ac yn gymunedol.

Mae'r drafodaeth strategol o ran 'defnydd iaith' wastad wedi bod yn ymylol i drafodaethau sector gyhoeddus, ac mae'r pwyslais o hyd wedi bod ar addysg. Mae'n hanfodol fod trafodaethau am ddefnydd a diwylliant iaith yn flaenoriaeth i Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru wrth i ni agosáu at 2050 os ydym am weld yr iaith Gymraeg yn iaith fyw yn ein cymunedau.

Cost - yn fwy aml na dim, mae rhaid talu i fynychu gweithgareddau yn y Gymraeg tu allan i'r dosbarth. Mae rhaid sicrhau nad yw tlodi yn rhwystr, i deuluoedd incwm isel a chymunedau difreintiedig, at gyfleoedd cymunedol yn y Gymraeg i blant a phobl ifanc

Diffyg mynediad lleol - oherwydd prinder adnoddau staffio (oherwydd diffyg buddsoddiad), yn aml iawn rhaid i'r Urdd dewis a dethol un neu ddau leoliad oddi fewn rhanbarth i gynnal gwasanaethau Cymraeg i blant a phobl Ifanc. Golyga hyn, i'r sawl sydd heb fynediad i drafnidiaeth nad oes modd mynychu'r gwasanaethau Cymraeg gan nad ydy'r ddarpariaeth yn gyfleus i'w gyrraedd. Dydy'r gwasanaethau Saesneg ddim wastad yn wynebu'r un sialens.

Diffyg Strategaeth 'Defnydd' a monitro cyson. Rydym yn croesawi Strategaeth Cymraeg 2050 ac yn gweld yr Urdd fel partner allweddol i gyrraedd y nod. Rydym hefyd yn canmol y datblygiad a'r buddsoddiad sydd wedi bod o ran Addysg Cymraeg .Ond, er mwyn sicrhau fod y Gymraeg yn 'iaith fyw' lle mae plant a phobl ifanc yn teimlo'n hyderus ac yn eu defnyddio yn naturiol mae'n hanfodol creu 'Strategaeth Defnydd iaith' gyda thargedau clir a monitro cyson. Heb hyn, bregus a ddarniog fydd y cyfleoedd i blant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau. Rhaid hefyd adeiladu gwell perthynas rhwng Addysg a Defnydd, wrth ehangu addysg Gymraeg yn ein cymunedau rhaid cael strwythur a buddsoddiad teg i allu creu bywyd 'Cymraeg' tu allan waliau'r ysgol.

**2.** Pa fath o ofodau a chyfleoedd a allai annog mwy o ddefnydd o'r iaith, a chynyddu hyder o ran ei defnyddio, mewn ardaloedd lle mae defnydd o'r iaith o ddydd i ddydd yn gyfyngedig?

Mae dros 160,000 o blant a phobl ifanc yn ymwneud a gwasanaethau'r Urdd gydol flwyddyn a drwy hyn yn cael mynediad at ddefnyddio'r Gymraeg tu allan y dosbarth/coleg. Mae 74% o aelodau'r Urdd yn dod o deuluoedd di-Gymraeg a 25% yn aelodau o deuluoedd incwm isel. Fel arbenigwyr yn y maes defnydd iaith gyda dros 103 o flynyddoedd o brofiad mae gyda ni berthynas adeiladol gyda dros 1090 o ysgolion a cholegau ynghyd a phartneriaethau cryf ar draws yr holl sectorau. Rydym yn un o gyflogwyr mwyaf drwy'r Gymraeg yn y 3ydd sector yng Nghymru gyda gweithlu o 416 (43% dan 25 oed). Mae nifer o'n gweithlu ifanc yn gyn-ddisgyblion addysg Gymraeg y De Ddwyrain, nifer ohonynt yn ddihyder yn y Gymraeg wrth gychwyn gyda'r Urdd ond drwy gefnogaeth a defnydd yn y swyddfa ac allan yn y Gymuned, maent yn datblygu'n siaradwyr hyderus.

Er mwyn cynyddu defnydd ymysg plant a phobl ifanc mae angen :-

- gofodau a gweithgareddau sydd yn rhan o amserlen cyson a rheolaidd bywydau plant a phobl ifanc tu allan yr ysgol.
- mwy o ddarpariaeth gymdeithasol ar nosweithiau / penwythnosau ac yn ystod gwyliau ysgol.
- angen i'r ddarpariaeth fod yn 'gyfateb' i'r hyn sydd ar gael i blant a phobl ifanc yn y Saesneg (parity of service). E.e. Gwersi nofio yn y Gymraeg.
- ni ddylai gweithgaredd fod yn ddibynnol ar fodel ariannu hunangynhaliol lle mae'r tal mynychu yn gorfod cynnal yr holl gostau.
- sicrhau fod llais plant a phobl ifanc yn rhan o'r cynllunio er mwyn sicrhau cyfleoedd cyfoes ac amrywiol

- buddsoddi mewn a chymhwyso staff er mwyn bod yn gystadleuol yn y farchnad gweithgareddau tu allan i'r ystafell dosbarth
- strwythur cryf ôl 16 oed o gyfleodd gwirfoddoli sy'n rhoi'r cyfle i bobl ifanc i ymarfer y Gymraeg wrth dderbyn cymhwyster  a dod yn rhan o'r gweithlu'r dyfodol
- llwybrau prentisiaethau yn y Gymraeg wedi'r cyfnod o addysg ffurfiol.  Mae canran uchel o'n prentisiaethau yn bobl ifanc sydd wedi cael addysg Cymraeg ond yn ddihyder yn yr iaith wrth adael yr ysgol.  Mae'r cyfle i fod yn Brentis wedi trawsnewid agweddau unigolion i'r Gymraeg.
- mae Gwersylloedd yr Urdd yn 'hybiau iaith' holl bwysig i annog defnydd iaith a chynyddu hyder plant a phobl ifanc i siarad Cymraeg.  Mae dros 103,000 o wersyllwyr yn manteisio o'r profiadau pwysig yma'n flynyddol. Mae 26% o'r ysgolion sy'n mynychu'r Gwersylloedd yn dod o'r wardiau mwyaf difreintiedig Cymru a 56% o ysgolion yn dod o gymunedau tu allan ein cadarnleoedd.  Mae 97% o ysgolion sy'n mynychu yn pwysleisio bod ymweliadau a'n Gwersylloedd wedi meithrin agwedd hynod gadarnhaol ymhlith plant a phobl ifanc tuag at y Gymraeg a diwylliant Cymru.

**3.** A allwch chi rannu enghreifftiau o fentrau neu weithgareddau llwyddiannus sydd wedi annog defnydd o'r Gymraeg mewn ardaloedd lle mae defnydd o'r iaith yn gyfyngedig?

Dyma rhai enghreifftiau dan adain yr Urdd;

Cynllun Prentisiaethau'r Urdd, sy'n denu siaradwyr di hyder yn y Gymraeg neu siaradwyr Di Gymraeg.  Penodwyd [redacted], Yusuf Billie a Hudhayfah Arish sy'n gyn disgyblion Uwchradd Fitzalan yn brentisiaid Cymhwysant ac Amrywiaeth ac yn dilyn rhaglen dysgu Gymraeg dwys., maent yn cynnal clybiau chwaraeon yn y Gymraeg drwy'r Urdd mewn ysgolion ail iaith.

Clybiau Chwaraeon cymunedol wythnos yr Urdd - gyda 6,128 yn mynychu yn wythnosol a llawer ohonynt yn cael cynnal mewn ardaloedd dwysedd isel. Mae'r clybiau yn ffynhonnell bwysig i ddefnydd y Gymraeg ti allan i'r dosbarth.

Clybiau chwaraeon wythnosol i ysgolion ail iaith mewn ardaloedd difreintiedig i gyflwyno'r Gymraeg e.e. Urdd yn mynychu nifer o ysgolion De Caerdydd (Southern Arc) gan gynnwys Ysgol Gynradd Mount Stuart.  Mae'r prosiect 'southern arc' yn un  llwyddiannus dros ben sydd hefyd wedi llwyddo i ddenu gwirfoddolwyr ifanc o Ysgol Uwchradd Fitzalan sy'n cefnogi'r ddarpariaeth

wythnosol ynghyd a derbyn gwersi dysgu'r Gymraeg yng Ngwersyll yr Urdd, Caerdydd pob prynhawn Mercher.

Prosiect Awyr agored yn Ne Ddwyrain Cymru - Mae Gwasanaeth Awyr Agored yr Urdd yn darparu cyrsiau iaith sylfaenol 'awyr agored' i bobl ifanc sy'n astudio Cymraeg TGAU ail iaith. . Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth am y Gymraeg a hyder disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyflawni alldeithiau'r Wobr Dug Caeredin.

Cyfleoedd Gwirfoddoli Cenedlaethol gyda'r Urdd - Trwy gyfleoedd gwirfoddoli'r Urdd mae pobl ifanc yn cael y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg e.e. 60 o wirfoddolwyr rygbi 7 bob ochr, swoggio yng ngwersylloedd haf, teithiau undydd cymunedol, teithiau rhyngwladol, Eisteddfodau cylch a sir.

Mae gwirfoddoli cymunedol yn rhan bwysig o wasanaeth yr Urdd ac yn dal i lwyddo fel ffynhonnell i ddenu pobl ifanc yn eu cymunedau i ddefnyddio'r Gymraeg ynghyd ag ennill profiad a chymwysterau e.e. [redacted] merch o [redacted], o deulu di Gymraeg, aeth i [redacted], dechreuodd gwirfoddoli gyda'r Urdd yn 15 oed, prentis yn 18oed, a nawr yn aelod o staff yr Urdd yn [redacted]

Mae ein cyrsiau preswyl 'thematig' ôl 16 oed yn ystod gwyliau'r ysgol / coleg yn dal i lwyddo i ddenu pobl ifanc a wahanol gymunedau ddod at ei gilydd i gymdeithasu yn y Gymraeg ac i ddysgu sgiliau newydd. Erbyn heddiw mae yna gynnydd sylweddol ac yr amrywio o gyrsiau sydd ar gynnig gan gynnwys penwythnosau theatr, awyr agored, cyfryngau digidol, chwaraeon, gwirfoddoli, a cherddoriaeth.

Mae mwy o wybodaeth am Eisteddfod yr Urdd yng nghwestiwn 6

Mwy o wybodaeth am Wersylloedd yr Urdd yng nghwestiwn 2

## 4. Sut y gallai technoleg ac offer digidol helpu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig ymhlith y rhai sy'n defnyddio'r iaith yn anaml neu sydd â diffyg hyder?

Mae'r Urdd wedi mabwysiadu datrysiadau Technoleg Gwybodaeth i hwyluso ein sustemau a chyfathrebu gydag aelodau, rheini, gwarchodwyr a rhanddeiliaid. Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol (dros £400K) yn ei isadeiledd technegol gwybodaeth sef y PORTH a CRM sydd yn ein galluogi i ymgysylltu'n effeithiol yn y Gymraeg ac yn ddwyieithog gydag aelodau, rheini, gwarchodwyr, ysgolion a

rhanddeiliaid fel eu bod yn derbyn yn uniongyrchol gwybodaeth am ddarpariaeth yr Urdd i blant a phobl ifanc. Rydym hefyd wedi adeiladu App Eisteddfod i roi gwybodaeth am holl weithgareddau wythnos Eisteddfod yr Urdd yn hwylus a hawdd siaradwyr Cymraeg di hyder a siaradwyr newydd.

Mae ein Pennaeth Technoleg yn wedi cyfrannu at y sylwadau isod.

Gwelwn 5 cam er mwyn i dechnoleg helpu cynyddu defnydd o'r Gymraeg:

I. Gwneud hi’n syml i ddefnyddio’r Gymraeg ar ffonau, cyfrifiaduron, ac apiau bob dydd
- Sicrhau bod dewisiadau iaith Gymraeg ar gael ac yn hawdd i'w darganfod
- Gwaredu rhwystrau teipio yn y Gymraeg oherwydd diffyg nodweddion sylfaenol (gwirio sillafu, "predictive text")
- Sicrhau ei bod hi’n bosib defnyddio’r Gymraeg gyda chynorthwywyr llais (Siri, Alexa)
- Gwella ansawdd AI Cymraeg

II. Cynnig ffyrdd hwylus i ymarfer siarad Cymraeg
- Mae apiau dysgu iaith a'u nodweddion AI (Duolingo) yn galluogi pobl i feithrin hyder drwy ymarfer sgyrsiau yn breifat a heb bwysau

III. Cydweithio'n agos gyda chwmnïau technoleg
- Cydweithio â chwmnïau mawr fel Apple a Google i integreiddio’r Gymraeg i systemau craidd ac apiau poblogaidd sy'n cael eu defnyddio bob dydd
- Darparu cymhellion i gwmnïau technoleg gynnwys cefnogaeth Gymraeg yn eu cynhyrchion newydd ar unwaith
- Yn ehangach, cynyddu argaeledd y Gymraeg ar draws darparwyr meddalwedd ac apiau mawr a ddefnyddir yn eang gan y cyhoedd, megis Stripe a Paypal - dau lwyfan talu a ddefnyddir yn eang.

IV. Moderneiddio meddalwedd Cymraeg cyfredol
- Buddsoddi mewn meddalwedd Cymraeg hanfodol (Cysill, Cysgeir) i'w gwneud yn fodern, hawdd eu defnyddio, ac ar gael ar lwyfannau poblogaidd (Word online, Google Docs)

V. Darparu mwy o gynnwys Cymraeg cyffrous a pherthnasol ar-lein
- Creu fideos, gwefannau, a phrofiadau digidol deniadol sy'n apelio at bawb, gan eu hannog i dreulio amser yn defnyddio'r Gymraeg ar-lein

**5.** Pa effaith, yn eich barn chi, y mae digwyddiadau diwylliannol fel Eisteddfodau cenedlaethol neu wyliau Cymraeg yn ei chael ar y defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â llai o siaradwyr Cymraeg?

Eisteddfod yr Urdd

Gweler cynnydd sylweddol mewn ymwneud pan mae'r Eisteddfod yn teithio ar draws Cymru. Mae'r ffigyrau cystadlu yn bron a dyblu (Rhanbarth Maldwyn 2023 – 6000 wedi cystadlu, Maldwyn 2024 – 11,000 wedi cystadlu. Gorllewin Morgannwg 2024 – 6000 wedi cystadlu, 2025 – 12,000 wedi cystadlu)

Rhoddir cyfleoedd gwirfoddoli i oedolion a phobl ifanc a thrwy hynny maent yn cael y cyfle i ddefnyddio'r iaith ac yn gweld a chlywed y Gymraeg yn iaith fyw.

Effaith ar yr iaith

Mae ein harolygon yn dangos bod:-

- 89% yn cytuno bod cymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd yn cynyddu hyder unigolyn
- 90% yn cytuno bod cymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd yn cynyddu balchder mewn diwylliant a'r iaith Gymraeg
- 86% yn cytuno bod cymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd yn ffordd dda i ddysgu'r iaith Gymraeg

Cynnydd o ddysgwyr Cymraeg ifanc

Mae 15% o gystadleuwyr yr Urdd yn ddysgwyr Cymraeg, neu'n gwbl newydd i'r iaith. Mae Eisteddfod yr Urdd yn gweld cynnydd blynyddol o 10% yn y dysgwyr Cymraeg sy'n cymryd rhan yn yr ŵyl.

Gwelwyd cynnydd o 30% mewn nifer y dysgwyr sy'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd rhwng 2023 a 2025 wrth fynd i ardal a dwysedd llai o siaradwyr Cymraeg..

Effaith Cymunedol

Nid ond wythnos yw Eisteddfod yr Urdd, mae yn 2 flynedd o baratoi, gweithgareddau cymunedol, sydd yn dod ac unigolion a chymunedau at ei gilydd i ddathlu a defnyddio'r Gymraeg.

## Ehangu Mynediad

Trwy gefnogaeth Llywodraeth Cymru i gynnig mynediad am ddim i aelodau teuluoedd incwm isel, mae 45% o ymwelwyr Eisteddfod yr Urdd oedd wedi hawlio tocyn incwm-is am ddim yn dod i'r Eisteddfod am y tro cyntaf. Mae 22% o blant a phobl ifanc sy'n ymwneud a'r Urdd o deuluoedd incwm isel.

Mae cynllun mynediad am ddim yn allweddol i ddenu ysgolion nad sydd fel arfer yn ymwneud a'r Eisteddfod yr Urdd.  Nododd un brif athro "Mae disgyblion ein hysgol, a'u teuluoedd, wedi gallu manteisio ar y cynllun hwn i brofi'r Eisteddfod am y tro cyntaf un, a dyma'r ffordd o gynnig cyfleoedd i fwy o blant fwynhau a dysgu trwy brofiadau ymgolli. Heb os, mae'r cynllun yn cryfhau ymdeimlad o berthyn i gymuned Gymraeg."

Teuluoedd Di-Gymraeg yn gwylio'r cystadlu ar S4C a'r cyfryngau cymdeithasol - Darlledir Eisteddfod yr Urdd ar S4C a'r llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, gyda 59 awr o ddarlledu a 4.19 miliwn yn gwylio cynnwys Eisteddfod yr Urdd ar blatfformau cyfyngau cymdeithasol.

## **6.** Sut y gellid addasu neu wella'r digwyddiadau hyn (boed yn rhai mawr neu fach o ran maint) i wasanaethu cymunedau â llai o siaradwyr Cymraeg yn well?

Rydym am awyddus bod y profiad o fynychu Eisteddfod yr Urdd yn un gadarnhaol ac yn agored i bawb er mwyn sicrhau ymdeimlad o berthyn i'r Gymraeg pa bynnag yw siwrne iaith yr unigolion a'u hannog i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae cost cynnal Eisteddfod yr Urdd yn £2.7m yn flynyddol gyda chyfraniad 13% gan Lywodraeth Cymru.  Rydym yn awyddus ac yn cydnabod bod angen parhau i wella'r profiad yr ymwelwyr sydd yn llai hyderus yn y Gymraeg ond mae'r tirlun ariannol presennol yn gosod heriau i gyflawni hyn.

I wella'r profiad mae angen:-

- Buddsoddiad ariannol ychwanegol i ehangu ar yr adnoddau i ymwelwyr sydd erioed wedi mynychu eisteddfod a / neu ddysgwyr i ddeall y profiad Eisteddfodol yn well a derbyn profiad cadarnhaol o'r ŵyl.

- Cynyddu ar gyfleoedd cystadlu a pherfformio i ddysgwyr a thynnu mewn unigolion a grwpiau na fydd yn fel arfer yn cystadlu.
- Ffurfioli 'System 'cyfeillio'' ar gyfer dysgwyr ac ymwelwyr newydd sy'n profi'r Eisteddfod am y tro cyntaf..
- Parhau i esblygu a buddsoddi yn App yr Eisteddfod yr Urdd sydd yn hwyluso profiad cadarnhaol i ymwelwyr newydd i Eisteddfod yr Urdd.

**7.** A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech dynnu sylw'r Pwyllgor atynt mewn perthynas â dull Llywodraeth Cymru o gefnogi'r Gymraeg mewn ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg?

Mae'r Urdd yn bartner allweddol i gyrraedd targed Cymraeg 2050 ac yn cefnogi'r Bil y Gymraeg ac Addysg fel y prif gatalydd i greu siaradwyr newydd.

Serch hyn, teimlwn fod y drafodaeth i fuddsoddi teg, i greu cyfleoedd ac i annog defnydd i blant a phobl ifanc yn y Gymraeg yn ymylol a byddwn yn croesawu 'Strategaeth Defnydd' tu allan i oriau addysg i gyd fynd gyda strategaeth Cymraeg 2050 gan osod targedau meintiol bydd yn cael ei fonitro'n flynyddol.

Mae ein Strategaeth 'Urdd i Bawb/Urdd i Bawb' 2023-2028 yn amlinellu nodau ac amcanion yr Urdd ar gyfer y pum mlynedd nesaf, gan ganolbwyntio ar gynhwysiant a sicrhau bod yr Urdd yn hygyrch i holl blant a phobl ifanc Cymru, waeth beth fo'u cefndir diwylliannol ac economaidd, eu gallu neu eu statws ieithyddol. Mae'n cydnabod ymrwymiad parhaus y sefydliad i wasanaethu ein haelodau craidd, ond hefyd yn nodi'r angen i ganolbwyntio ar ddemograffeg plant a phobl ifanc sydd wedi'u tangynrychioli (gan gymdeithas) gan gynnwys y rhai sy'n byw mewn tlodi, dysgwyr Cymraeg, lleiafrifoedd ethnig, y rhai ag Anableddau neu Anghenion Dysgu Ychwanegol ac ar gyfer y gymuned LHDT+.

Rydym yn gwerthuso ein strategaeth yn flynyddol ac yn hyderus ein bod yn ymestyn allan i dirlun ehangach o blant a phobl ifanc i ymwneud a'r Urdd a'r Gymraeg.

Ein nod yw gweld mwy o blant a phobl ifanc yn ymgysylltu â'r iaith yn eu cymunedau, ac nad yw arian yn rhwystr i gael mynediad at ddarpariaeth iaith Gymraeg.